

Comisiwn Ffiniau i Gymru
Adroddiad Blynyddol 2012/13



© Hawlfraint y Goron 2013

Gallwch aildefnyddio'r wybodaeth hon (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim ar unrhyw ffurf neu mewn unrhyw gyfrwng, o dan delerau Trwydded y Llywodraeth Agored. Er mwyn gweld y drwydded hon, ewch i <http://www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence> neu anfonwch neges e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau mewn perthynas â'r cyhoeddiad hwn atom ni yn comffin.cymru@wales.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd ar ein gwefan yn www.comffin-cymru.gov.uk

COMISIWN FFINIAU I GYMRU

ADRODDIAD BLYNYDDOL 2012/13

HYDREF 2013

Y Comisiwn Ffiniau i Gymru
Tŷ Hastings
Llys Fitzalan
Caerdydd
CF24 0BL
Rhif Ffôn: +44 (0)29 20464819
Rhif Ffacs: +44 (0)29 20464823
E-bost: comffin.cymru@cymru.gsi.gov.uk

Cynnwys

Rhagair	1
Cyflwyniad	3
Amcanion	5
Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol	6
Cyllideb a Gwariant	9
Rhaglen Waith ar gyfer 2013/14	10

Rhagair

Yn 2011 dechreuodd y Comisiwn Ffiniau Seneddol i Gymru gynnal ei Arolwg 2013 o ffiniau Etholaethau Seneddol yn dilyn y rheolau a amlinellwyd yn Neddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Yn ystod y flwyddyn honno datblygodd y Comisiwn gynigion ar gyfer map etholaethau Seneddol diwygiedig o Gymru, gyda 30, yn hytrach na 40 o etholaethau yr oedd pob un ohonynt o fewn 5% o gwota etholiadol y DU. Cyhoeddwyd y cynigion cychwynnol hyn ym mis Ionawr 2012, ac roeddent yn ddechrau proses o ymgynghori cyhoeddus pan wahoddwyd aelodau'r cyhoedd a phartion eraill â buddiant i roi sylwadau ar gynigion y Comisiwn. Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol a redodd hyd at ddechrau mis Ebrill 2012, derbyniodd y Comisiwn dros 500 o ymatebion ysgrifenedig, ac yn ogystal, fe wnaeth dros 100 o unigolion siarad mewn pump o wrandawiadau cyhoeddus ledled Cymru.

Cyhoeddodd y Comisiwn bob un o'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol ar 13 Mehefin 2012. Bu cyfnod o bedair wythnos wedyn i alluogi i sylwadau cael eu wneud ar yr ymatebion a dderbyniwyd yn flaenorol. Ar ôl ystyried yr holl gynrychiolaethau ac adroddiad y Comisiynwyr Cynorthwyol, cyhoeddwyd cynigion diwygiedig y Comisiwn ar 24 Hydref 2012. Dechreuodd hyn ar gyfnod wyth wythnos o ymgynghori a redodd hyd at 18 Rhagfyr 2012.

Ar ôl penodiad fy rhagflaenydd, Meistr Ustus David Lloyd Jones, i'r Llys Apêl, roeddwn yn falch o gael fy mhenodi yn Ddirprwy Gadeirydd y Comisiwn o 1 Hydref 2012. Roeddwn yn ddiolchgar iawn i Feistr Ustus Lloyd Jones, fy nghyd gomisiynwyr (Mr Paul Loveluck CBE a'r Athro Robert McNabb), Ysgrifennydd y Comisiwn (Mr Ben Whitestone) a phob un o'r staff o Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn am eu cymorth yn sicrhau trosglwyddiad hwylus.

Aeth gwaith yn ei flaen hyd at fis Ionawr 2013, a bryd hynny, ar ôl i diwygiad i'r Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol cael ei phasio, cyhoeddodd y Comisiwn ddatganiad yn canslo Arolwg 2013.

Yn ystod misoedd olaf y flwyddyn ariannol cynhyrchodd yr Ysgrifennydd, Mr Ben Whitestone, adroddiad rhagorol a oedd yn ystyried Arolwg 2013 ac yn rhoi asesiad o'r hyn aeth yn dda a'r hyn y gellid fod wedi ei wella mewn perthynas â materion fel gwaith gweinyddol a oedd yn gyfrifoldeb y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi cymeradwyo'n llawn yr adroddiad a'i argymhellion a fydd yn cael eu mabwysiadu ar gyfer arolygon yn y dyfodol.

Yr Anrhydeddus Meistr Ustus Wyn Williams
Dirprwy Gadeirydd

1. Cyflwyniad

Y Noddwr

1.1 Corff Cyhoeddus Anadrannol cyngorol ac a ariennir yn gyfan gwbl gan Swyddfa'r Cabinet yw'r Comisiwn Ffiniau i Gymru. Mae'r Comisiwn yn cyflwyno adroddiadau i'r Ysgrifennydd Gwladol a dyletswydd statudol yr Ysgrifennydd Gwladol yw eu cyflwyno gerbron y Senedd. Lle bo'r adroddiad yn argymhell bod angen gwneud addasiadau i ffiniau etholaethau Seneddol, mae'n rhaid i'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd gyflwyno copi drafft o Orchymyn y Cyfrin Gyngor gerbron y Senedd, er mwyn dod ag argymhellion y Comisiwn i rym. Mae'r Arglwydd Ganghellor yn penodi'r Dirprwy Gadeirydd, mae'r Ysgrifennydd Gwladol yn penodi un o aelodau'r Comisiwn, y Comisiynwyr Cynorthwyol, a'r Ysgrifennydd i'r Comisiwn (gweler Aelodaeth isod).

Y Comisiwn

1.2 Mae'r Comisiwn wedi'i sefydlu o dan adran 2 ac atodlen 1 Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd). Corff annibynnol, anwleidyddol a chwbl amhleidiol ydyw. Nid yw'r Comisiwn yn ystyried ffactorau gwleidyddol ac ni chaiff effeithiau argymhellion y Comisiwn ar batrymau pleidleisio yn y dyfodol eu hystyried.

1.3 O 1 Ionawr 2002, mae swyddogion Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru (CFfLILG), a leolir yng Nghaerdydd, wedi staffio Ysgrifenyddiaeth y Comisiwn Ffiniau¹ hefyd. Er bod adeiladau a rhai adnoddau staff yn cael eu rhannu, mae Ysgrifenyddiaethau'r ddau Gomisiwn yn gweithredu'n annibynnol i'w gilydd.

Aelodaeth

1.4 Siaradwr Tŷ'r Cyffredin yw Cadeirydd yn rhinwedd ei swydd pob un o'r pedwar Comisiwn Ffiniau Seneddol yn y Deyrnas Unedig. Mae penodiad y Siaradwr yn pwysleisio annibyniaeth, amhleidioldeb a natur anwleidyddol y Comisiynau. Nid yw'r Siaradwr yn cyfrannu o gwbl at gynnal arolygon. Mae'r Dirprwy Gadeirydd, sy'n eistedd yn y cyfarfodydd, yn Farnwr yn yr Uchel Lys: yr Anrhydeddus Meistr Wyn Williams. Yr Aelodau yw Mr Paul Loveluck a'r Athro Robert McNabb.

1.5 Caiff y Comisiynwyr eu penodi'n rhan-amser a byddant yn cyfarfod pryd bynnag y bydd y rhaglen waith yn gofyn am hynny. Ers pasio Deddf y Comisiwn Ffiniau 1992, mae Aelodau'r Comisiwn (ac eithrio'r Dirprwy

¹ Ac eithrio'r Ysgrifennydd o fis Rhagfyr 2011 - gweler aelodaeth.

Gadeirydd) wedi derbyn ffi ddyddiol y cytunir arni gan yr Adran Nawdd gyda Thrysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer gwaith a wneir ar ran y Comisiwn a chyda'r Dirprwy Gadeirydd, ac mae ganddynt hawl i adennill unrhyw dreuliau (megis costau teithio a chynhaliaeth) yr eir iddynt yng ngwaith y Comisiwn.

- 1.6** Mae'r Comisiwn wedi sefydlu Cod Ymarfer a Chofrestr o Fuddiannau Aelodau, sy'n cael eu diweddarau bob blwyddyn. Mae copïau o'r dogfennau hyn ar gael ar gais.
- 1.7** Mae gan y Comisiwn ddau aseswr statudol. Un o'r rhain yw'r Bwrdd Ystadegau (a gynrychiolir gan yr Ystadegydd Gwladol), a'r llall yw Cyfarwyddwr Cyffredinol yr Arolwg Ordnans. Mae dirprwyon yn cynrychioli'r ddau yng nghyfarfodydd y Comisiwn.
- 1.8** Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd yn penodi Ysgrifennydd i'r Comisiwn. Mr Ben Whitestone oedd yr Ysgrifennydd dros gyfnod yr Adroddiad hwn. Caiff yr Ysgrifennydd ei gyflogi'n ffurfiol gan Swyddfa'r Cabinet.
- 1.9** Rôl yr Ysgrifenyddiaeth yw gwasanaethu a chynorthwyo'r Comisiynwyr wrth gynnal eu harolygon a gweithredu eu penderfyniadau. Mae'r Ysgrifenyddiaeth yn gweithio yn swyddfeydd Ysgrifenyddiaeth y CFFLILG yng Nghaerdydd a chysylltir â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â staffio ac adeiladau.

Dyletswyddau Statudol

- 1.10** Prif swyddogaeth statudol y Comisiwn yw parhau i adolygu dosbarthiad seddau mewn etholiadau Seneddol, cynnal arolygon rheolaidd o ffiniau etholaethau Seneddol a llunio adroddiadau gydag argymhellion i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 (fel y'i diwygiwyd).
- 1.11** Gwnaeth Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011 newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth sy'n llywodraethu dosbarthiad seddau Seneddol. Ar 4 Mawrth 2011, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddechrau Arolwg 2013 o etholaethau Seneddol yng Nghymru a fyddai'n dilyn y newidiadau i'r ddeddfwriaeth.
- 1.12** Mae'r Ddeddf yn ddileu'r cysylltiad rhwng yr etholaethau Seneddol ac etholaethau Cynulliad Cymru hefyd. Effaith hyn, nes y rhoddir deddfwriaeth newydd yn ei le, yw diffyg unrhyw fecanwaith ar gyfer arolygu etholaethau Cynulliad Cymru yn rheolaidd.

2. Amcanion

Amcan Cyffredinol

- 2.1** Parhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin a Chynulliad Cenedlaethol i Gymru² yn barhaus.

Amcanion Penodol ar gyfer 2012/13

- 2.2** Datblygu Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol yn unol â Deddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011.
- 2.3** Sicrhau bod holl waith y Comisiwn Ffiniau i Gymru'n cael ei wneud gyda'r bwriad o gynnig y gwerth gorau posibl am arian.
- 2.4** Sicrhau bod pob rhanddeiliad â buddiant yn cael eu cynnwys yn effeithiol fel eu bod yn llwyr ddeall arolygon o etholaethau Seneddol a'u bod yn gallu cyfrannu at y broses o gynnal arolygon.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

- 2.5** Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd pob dogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

² Gweler paragraff 1.12

3. Arolwg 2013 o Etholaethau Seneddol

Cynnydd gydag Arolwg 2013

3.1 Ar 4 Mawrth 2011 cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ddechreuad arolwg 2013 o etholaethau Seneddol yng Nghymru gan chyhoeddi cylchlythyr yn crynhoi'r newidiadau i ddeddfwriaeth, a'r effaith y byddai hyn yn ei chael ar etholaethau Seneddol yng Nghymru (h.y. lleihau nifer yr etholaethau o 40 i 30 a phob etholaeth i fod o fewn 5% i gwota'r DU).

Cynigion Cychwynnol

3.2 Ar 11 Ionawr 2012 cyhoeddodd y Comisiwn ei Gynigion Cychwynnol ar gyfer Arolwg 2013. Dechreuodd hyn proses ymgynghori 12 wythnos lle y gofynnodd y Comisiwn i bobl Cymru helpu i lunio'r etholaethau Seneddol diwygiedig drwy ymateb o blaid, neu yn erbyn, cynigion y Comisiwn. Rhwng 11 Ionawr a 4 Ebrill 2012, derbyniodd y Comisiwn gynrychiolaethau ar ei gynigion cychwynnol, yn ysgrifenedig ac ar lafar mewn pum gwrandawriad cyhoeddus yn Abertawe, Caerdydd, Wrecsam, Caernarfon a Llandrindod.

3.3 Yn ystod y cyfnod ymgynghori cychwynnol derbyniodd y Comisiwn ryw 500 o ymatebion ysgrifenedig, a oedd yn adlewyrchu barnau dros 4000 o unigolion a sefydliadau, a chlywodd gan dros 100 o siaradwyr yn ei wrandawiadau cyhoeddus.

3.4 Ar 13 Mehefin 2012 cafodd y cynrychiolaethau cychwynnol a thrawsgrifiadau'r gwrandawiadau cyhoeddus eu cyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg, a dilynwyd hyn gan gyfnod o bedair wythnos pan roddwyd cyfle i wneud sylwadau ysgrifenedig ar y cynrychiolaethau cychwynnol. Wrth lansio'r ail ymgynghoriad hwn, lansiodd y Comisiwn wefan newydd hefyd, a oedd yn cynnwys cronfa ddata chwiliadwy yn rhoi mynediad rhwydd i'r ymatebion a gyhoeddwyd i'r ymgynghoriad. Derbyniodd y Comisiwn 200 o gynrychiolaethau ysgrifenedig eraill yn ystod yr ail gyfnod ymgynghori a ddaeth i ben ar 10 Gorffennaf 2012.

3.5 Roedd y cynrychiolaethau a dderbyniwyd gan y Comisiwn yn ystod y cyfnod ymgynghori cyntaf a'r ail gyfnod ymgynghori yn ddefnyddiol, ac o'r ymatebion a dderbyniwyd gellid gweld yn amlwg pa feysydd o gynigion cychwynnol y Comisiwn yr oedd cefnogaeth iddynt, a'r rhai a wrthwynebwyd. Ymatebodd amrywiaeth o unigolion a sefydliadau gan gynnig safbwynt lleol clir a rhoi barnau cymunedau ledled Cymru.

Gofynnodd y Comisiwn i dri Comisiynydd Cynorthwyol ystyried yr holl gynrychiolaethau a wnaed a gwneud argymhellion i'r Comisiwn ynglŷn â sut gallai ddiwygio'i gynigion o ganlyniad i hynny. Gwnaed yr adroddiad hwn gan y Comisiynwyr Cynorthwyol ym mis Awst 2012.

Cynigion Diwygiedig

- 3.6** Yn dilyn y ddau gyfnod ymgynghori ar y cynigion cychwynol aeth y Comisiwn ati i ystyried yr holl gynrychiolaethau a ddaeth i law, ac argymhellion y Comisiynwyr Cynorthwyol, a phenderfynodd ddiwygio cyfansoddiad 20 o'r 30 o etholaethau ac 14 o enwau'r etholaethau; roedd rhai o'r newidiadau yn rhai sylweddol. Cyhoeddwyd cynigion diwygiedig y Comisiwn ar 24 Hydref 2012. Hwn oedd dechrau cyfnod ymgynghori o wyth wythnos a redodd hyd at 18 Rhagfyr 2012.
- 3.7** Gyda chyhoeddi'r cynigion diwygiedig, roedd y Comisiwn Ffiniau i Gymru bellach yn gyson ag amserlenni Comisiynau Ffiniau eraill y DU, ar ôl llwyddo i adfer yr oedi o bedwar mis a ddigwyddodd yn 2011 gan i ddau o'r Comisiynwyr (fel yr adroddwyd yn ein Hadroddiad Blynyddol 2011/12) ymddiswyddo am resymau heb fod yn ymwneud â gwaith y Comisiwn.
- 3.8** Roedd adroddiad Cynigion Diwygiedig y Comisiwn yn amlinellu newid ym mholisi blaenorol y Comisiwn yn ymwneud ag enwi etholaethau. Ar ôl rhoi ystyriaeth ofalus i'r sefyllfa gyfreithiol a'r barnau a wnaed mewn cynrychiolaethau i'r Comisiwn, roedd y Comisiwn o'r farn ei bod yn briodol i bob etholaeth yng Nghymru gael enwau gwahanol yn Gymraeg a Saesneg. Yn ei adroddiad cynigion diwygiedig, felly, rhoddwyd enwau gwahanol yn Gymraeg lle mai Saesneg oedd prif enw'r etholaeth, ac yn Saesneg lle mai Cymraeg oedd prif enw'r etholaeth. Lle'r oedd enw etholaeth yn ddwyieithog, er enghraifft Llanelli, nid oedd angen darparu enw gwahanol.

Canslo'r Arolwg

- 3.9** Ar ôl i ddiwygiad i'r Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol yn y Senedd cael ei phasio, cyhoeddodd y Comisiwn ddatganiad ar 31 Ionawr 2013 yn canslo Arolwg 2013.

Cau'r Arolwg

- 3.10** Ar ôl canslo'r Arolwg, cynhaliodd yr Ysgrifennydd, Mr Ben Whitestone, adolygiad o Arolwg 2013 er mwyn asesu pa brosesau rheoli a phrosesau eraill a aeth rhagddynt yn dda, neu pa rai y gellid eu gwella, er mwyn trosglwyddo unrhyw wersi y gellir eu cymhwyso'n ddefnyddiol i arolygon y dyfodol. Cynhyrchwyd adroddiad a oedd yn cynnwys nifer o argymhellion a gymeradwywyd gan y Comisiwn. Nodwyd bod gofyniad y Ddeddf, sef y dylai fod gan bob etholaeth newydd nifer o etholwyr o fewn 5% i gwota'r DU, yn golygu i Gymru bod rhaid i rai o'r hen gysylltiadau gael eu rhoi o'r neilltu a bod rhaid gwneud rhai cysylltiadau llai nag amlwg.

Y Camau Nesaf

- 3.11** Mae'r diwygiad i'r Bil Cofrestru Etholiadol a Gweinyddu Etholiadol yn gwneud newid i Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Mae'r diwygiad hwn yn newid dyddiad y gofyniad ar y Comisiwn i adrodd ei argymhellion i'r Senedd o 'cyn 1 Hydref 2013' i 'nid cyn 1 Medi 2018 a chyn 1 Hydref 2018'. Bydd y Comisiwn felly yn gweithio tuag at gynnal arolwg pellach o etholaethau Seneddol a fydd yn cael ei gwblhau mewn pryd i adrodd ei argymhellion yn unol â'r raddfa amser a nodwyd yn y ddeddfwriaeth, gan ystyried unrhyw benderfyniadau pellach gan y Senedd ar y mater hwn.

4. Cyllideb a Gwariant

Gwariant Ebrill 2012 hyd at Fawrth 2013

- 4.1 Mae Tabl 1 yn cymharu'r gwariant gwirioneddol â'r gyllideb, yn ystod y flwyddyn ariannol lle mae'r adroddiad hyn yn cymryd lle.

Tabl 1 – Cyllideb a Gwariant

Elfen Gyllideb	Cyllideb (£)	Gwirioneddol (£)
Cyflogau Staff	150,000	81,381
Ffioedd Comisiynwyr a Chomisiynwyr Cynorthwyol	68,000	36,429
Adeilad y Swyddfa	40,500	44,357
Teithio a Chynhaliaeth	5,000	543
Lletygarwch	500	400
TG a Thelathrebu	15,500	15,156
Costau Arolygon Eraill*	144,500	55,250
Cyfanswm	424,000	233,516

*yn cynnwys costau gwrandawiaidau, hyfforddiant, postio, hysbysebu, argraffu, trawsgrifio a chyfieithu.

- 4.2 Mae Tabl 1 yn dangos, ar gyfer blwyddyn ariannol 2012/13, fod y Comisiwn Ffiniau wedi tanwario £190,484 ar ei gyllideb. Y prif resymau am y tanwariant hwn oedd:

- Arolwg 2013 oedd yr arolwg mwyaf yn hanes y Comisiwn Ffiniau (fe'i sefydlwyd ym 1944) gan olygu ei bod yn anodd, ar ddechrau'r broses, i amcangyfrif y gyllideb a fyddai ei hangen. Cynhwyswyd elfen o gronfa wrth gefn felly yn y gyllideb gyffredinol, ond ni chafodd ei defnyddio rhyw lawer;
- Cafodd Arolwg 2013 ei ganslo ar ddiwedd Ionawr 2013; ac
- Roedd y Comisiwn am gyflawni'r gwerth mwyaf posibl am arian yn ei holl waith.

5. Rhaglen Waith ar gyfer 2013/14

5.1 Gan fod y Comisiwn Ffiniau i Gymru yn rhannu ei Ysgrifenyddiaeth gyda Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru³, bydd y staff yn ymwneud yn bennaf â gwaith cynnal arolygon o ffiniau llywodraeth leol a threfniadau etholiadol. Fodd bynnag, o fewn termau ei amcanion cyffredinol i barhau i adolygu cynrychiolaeth Cymru yn Nhŷ'r Cyffredin yn barhaus, amcanion penodol y Comisiwn yn 2013/14 fydd:

- Cynnal swyddfa i'r Comisiwn er mwyn ymdrin ag ymholiadau ac i ymgymryd â dyletswyddau statudol;
- Sicrhau bod holl waith y Comisiwn yn cael ei gyflawni gyda'r bwriad o ddarparu'r gwerth gorau posibl am arian; a
- Sicrhau cadw'r wybodaeth a'r arbenigedd o fewn y Comisiwn.
- Rhoi'r newidiadau ar waith i weithrediad y Comisiwn fel yr argymhellwyd yn yr adroddiad Cau'r Arolwg.

Yn ogystal, bydd y Comisiwn yn monitro canlyniadau argymhellion y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus ac yn ystyried y goblygiadau i waith y Comisiwn.

Cynllun yr Iaith Gymraeg

5.2 Mae'r Comisiwn yn gweithredu polisi cwbl ddwyieithog. Bydd pob dogfennaeth swyddogol a gyhoeddir gan y Comisiwn ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg. Mae'r Comisiwn yn croesawu gohebiaeth gan unigolion a sefydliadau yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Cyllideb

5.3 Er mwyn galluogi cyflawni'r amcanion a restrwyd yn 5.1 uchod, dyrannwyd cyllideb o £100,000 i'r Comisiwn ar gyfer y flwyddyn ariannol 2013/14.

³ Fe wnaeth Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) Cymru 2013 newid enw'r Comisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol i Gymru i Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru.

